

# Adroddiad Arholwyr TAG

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
Haf 2024

© WJEC CBAC Ltd | City & Guilds.

**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys** **Tudalen**


**Crynodeb gweithredol** **5**

**Uned 1 Hybu iechyd a llesiant** **7**

**Uned 2 Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru** **11**

**Uned 3 Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc** **15**

**Uned 4 Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc** **19**

**Uned 5 Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion** **24**

**Uned 6 – Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch** **28**

**Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a dolenni defnyddiol** **30**


© WJEC CBAC Ltd.

## Crynodeb Gweithredol

### Unedau a Asesir yn Allanol (1, 3 a 5)

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ac roedd y gyfradd ymgeisio ar gyfer pob cwestiwn ar draws yr holl unedau a asesir yn allanol yn gadarnhaol.

Roedd safon gyffredinol ymatebion yr ymgeiswyr i'r papurau yn dda ac roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda yn gyffredinol o'r fanyleb ac yn gallu cymhwyso'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn effeithiol at y cwestiynau. Cafwyd rhai enghreifftiau o ymgeiswyr yn rhoi ymatebion lle nad oeddent wedi deall yr hyn roedd y cwestiwn yn ei ofyn, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth o fylchau yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o rai testunau.

Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gallu deall a chymhwyso'r gwahanol ferfau gorchmynnol, megis 'disgrifiwch', 'esboniwch' a 'thrafodwch' ar gyfer AA1, AA2 ac AA3 yn y drefn honno. Mae angen i ymgeiswyr ddatblygu eu hatebion yn llawn, gan fod gormod o lawer o ymgeiswyr yn colli allan ar gyflawni'r bandiau marciau uwch ar gyfer AA3 drwy roi esboniadau arwynebol a barn heb ei hategu, sy'n aml yn unochrog.

Mae angen i ymgeiswyr ddarllen pob cwestiwn arholiad yn ofalus iawn i ganolbwyntio ar: ateb y cwestiwn sydd wedi'i osod, gan uwcholeuo neu danlinellu geiriau allweddol yn y cwestiwn i osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd neu ateb rhan yn unig o'r cwestiwn sydd wedi'i osod.

Yn ogystal, byddai ymgeiswyr yn elwa ar ymarfer cwestiynau arholiad yn rheolaidd fel bod yr arholiad terfynol o bosibl yn achosi llai o straen, ac nid yn brofiad anghyfarwydd. Mae angen i ymgeiswyr ymgyfarwyddo â chymhwyso'r gwahanol ferfau gorchmynnol fel eu bod yn gallu cael mynediad i ac ennill marciau yn y bandiau marciau uchaf. Mae'r cynlluniau marcio o gyn-bapurau arholiad yn gallu bod yn adnoddau gwerthfawr hefyd i ategu gweithgareddau addysgu a dysgu. Gall ymarfer ffug-arholiad llawn helpu ymgeiswyr i wella eu sgiliau rheoli amser ac osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd yn y dyfodol.

### Unedau a Asesir yn Fewnol (2, 4 a 6)

Gan amlaf, roedd y tasgau a gyflwynwyd yn drefnus ac wedi'u cwblhau mewn fformat priodol, gyda thystiolaeth o gyflawni ymchwil cyn dechrau'r Asesiad Di-arholiad wedi'i dogfennu a'i chyfeirio'n dda yn y rhan fwyaf o achosion.

Rhaid i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid i ganolfannau sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn rhoi marciau yn y bandiau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn y fanyleb. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atyn nhw. Roedd y dystiolaeth o'r ymchwil oedd wedi'i gyflawni cyn dechrau'r Asesiad Di-arholiad wedi'i dogfennu'n dda drwy'r gwaith ac wedi'i chyfeirio ar ôl pob adran. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio penawdau (Adran a, b a c ac ati) i'w cefnogi o ran cyflwyniad y gwaith.

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi defnyddio'r darn cywir o ddeddfwriaeth oedd wedi'i nodi yn y cynnwys wedi'i ryddhau ymlaen llaw ar gyfer pob un o'r unedau Asesiad Di-arholiad eleni.

© WJEC CBAC Ltd.

| **Meysydd i'w gwella** | **Adnoddau ystafell ddosbarth** | **Disgrifiad byr o'r adnodd** |
|---|---|---|
| Ymarfer cwestiynau arholiad | https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ | Adnoddau Arweiniad i'r Arholiad (cyngor ac awgrymiadau ymarferol). |
| Gwybodaeth sylfaenol | https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ | Trefnwyr gwybodaeth/ Dysgu cyfunol |

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2024**

**UNED 1 HYBU IECHYD A LLESIANT**

**Trosolwg o'r Uned**

Dyma'r trydydd papur arholiad ar gyfer y cymhwyster TAG hwn, a dylid canmol canolfannau am baratoi ymgeiswyr ar lefel Uwch Gyfrannol. Roedd yn galonogol gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cwblhau pob cwestiwn ar y papur arholiad a'u bod wedi neilltuo digon o amser i gwblhau'r cwestiwn olaf ar y papur, sef y cwestiwn a oedd yn cynnig y nifer uchaf o farciau.

Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r sectorau galwedigaethol, gan wneud defnydd rheolaidd o derminoleg sector-benodol ar draws amcanion asesu AA1, AA2 ac AA3.

Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn llai cyfarwydd â rhywfaint o gynnwys hanfodol y fanyleb, gan gynnwys y model biofeddygol, fframwaith Mwy na geiriau, Strategaeth Tlodi Plant Cymru a llywio gofal. Gall y papur arholiad hwn ymdrin ag unrhyw agwedd ar y fanyleb a dylai canolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn gyfarwydd â chynnwys y fanyleb gyfan.

Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gallu deall a chymhwyso'r gwahanol ferfau gorchmynnol, megis 'disgrifiwch', 'esboniwch' a 'thrafodwch' ar gyfer AA1, AA2 ac AA3 yn y drefn honno.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Roedd hwn yn gwestiwn cyntaf hygyrch ar gyfer AA1, a chafwyd atebion da. Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ystyr hybu iechyd a'i fanteision. Fodd bynnag, nododd rhai ymgeiswyr fod 'hybu iechyd yn hybu iechyd, llesiant a gwydnwch' ac ni wnaethant egluro sut mae hynny'n gwella ymwybyddiaeth ac yn golygu bod unigolion yn fwy tebygol o fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at eu hiechyd a'u llesiant. Yn aml, darparodd ymgeiswyr amrywiaeth o enghreifftiau manwl a phriodol o ymgyrchoedd hybu iechyd, fel y plât bwyta'n dda a chynlluniau rhoi'r gorau i ysmygu. Gwnaethant ddisgrifio sut mae ffyrdd iachach o fyw yn arwain at fanteision iechyd a gwydnwch tymor hwy, gan fod unigolion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros atal salwch a chlefydau.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.2 (a)** Cafwyd atebion da i'r cwestiwn AA2 hwn ar y cyfan, er bod rhai ymgeiswyr wedi disgrifio camau gweithredu mwy cyffredinol o ran iechyd a llesiant, heb esbonio'r risg a'r cysylltiadau â diabetes Math 2. Esboniodd ymgeiswyr a ddarparodd ymatebion o fewn band marciau 4 yn glir y dylai Sanjay fwyta deiet iach a chytbwys ac ymarfer corff yn rheolaidd er mwyn osgoi bod dros bwysau neu'n ordew, gan fod hyn yn ffactor risg a all sbarduno diabetes math 2. Os bydd Sanjay dros bwysau, yna mae'n bosibl y bydd mwy o feinwe brasterog o amgylch ei afu a'i bancreas, gan olygu y bydd ganddo ymwrthedd uwch i inswlin.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol fod y ferf orchymyn 'esboniwch' yn gofyn iddynt nodi neu ddisgrifio ffactor a gaiff wedyn ei ddehongli neu ei ddatblygu ymhellach.
Darparodd ymgeiswyr yn y band marciau uchaf esboniadau yn nodi pam na ddylai Sanjay fwyta bwydydd neu yfed diodydd sy'n cynnwys llawer o siwgr, gan y gall arwain at gynnydd sydyn yn lefel y siwgr yn y gwaed a bod y lefelau glwcos uchel hyn unwaith eto yn cyfrannu at ymwrthedd i inswlin ac y gallant achosi diabetes math 2.

**(b)** Roedd hwn yn gwestiwn AA1 a oedd yn cael ei farcio ar sail pwyntiau ac roedd yn gofyn i ymgeiswyr nodi a disgrifio'r tri dull sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth hybu iechyd i unigolion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cafwyd atebion da i'r cwestiwn hwn ar y cyfan, a disgrifiodd ymgeiswyr y defnydd o daflenni, posteri, digwyddiadau hyrwyddo a rôl gweithwyr proffesiynol wrth ddarparu gwybodaeth wyneb yn wyneb yn newis iaith yr unigolyn. Soniodd rhai ymgeiswyr am rôl fframwaith 'Mwy na geiriau', a rhoddwyd marciau am hynny os oedd wedi'i gysylltu â dulliau hybu iechyd priodol.

**Cw.3** Cwestiwn AA1 oedd hwn a oedd yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio nodweddion y model biofeddygol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda, a chafwyd rhai ymatebion manwl eithriadol a gyflawnodd marciau llawn. Fodd bynnag, disgrifiodd rhai ymgeiswyr fodel arall ar gyfer iechyd a llesiant ac ni roddwyd unrhyw farciau iddynt.

**Cw.4** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am esboniad AA2 o sut byddai fframwaith 'Mwy na geiriau' yn gallu bod o fantais i blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i nodi ac esbonio'r manteision i oedolion, ond nid i blant. Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r angen i ganolbwyntio ar bob agwedd ar y cwestiynau datganedig. Hefyd, llwyddodd rhai ymgeiswyr i ddisgrifio'r fframwaith, ond ni wnaethant bob amser esbonio'r manteision, er enghraifft bod y cynnig rhagweithiol yn cynnig dewis iaith i unigolion er mwyn sicrhau nad yw gwahaniaethau iaith yn creu rhwystrau sy'n atal unigolion rhag gallu defnyddio gwasanaethau.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ddadansoddiad AA3 o sut byddai Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn gallu cyfrannu at welliannau i iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru. Darparodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ymateb band marciau 1 neu 2, ond nid oedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn. Roedd ymatebion yn y bandiau marciau uchaf yn dadansoddi manteision y strategaeth, fel prydau ysgol am ddim, cymorth i brynu gwisg ysgol a phresgripsiynau am ddim i ardaloedd daearyddol penodol lle ceir amddifadedd, i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd ac addysgol. Nododd rhai ymgeiswyr ym mand marciau 3 yr angen i leihau nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith, a'r cymorth iechyd, addysgol ac economaidd sydd ei angen i chwalu cylchoedd o ddiweithdra a thlodi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Cw.6** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am drafodaeth AA3 am Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru a chafwyd atebion da gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Dylai ymgeiswyr fod yn gyfarwydd iawn â'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru gan eu bod wedi bod ar waith mewn ysgolion a cholegau ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, nid oedd gan rai ymgeiswyr unrhyw wybodaeth am y cynlluniau nac unrhyw ddealltwriaeth ohonynt neu ni wnaethant roi cynnig ar y cwestiwn hwn.

Roedd ymatebion yn y band marciau uchaf yn rhoi enghreifftiau clir a manwl o'r nodweddion, fel y ffocws ar ddeiet, ymarfer corff, hydradu, hylendid, codi ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau a'r cyswllt rhwng iechyd, ymddygiad, cyflawniad a hapusrwydd. Trafododd rhai ymgeiswyr hefyd sut y caiff adborth ei annog er mwyn gallu grymuso plant i weithredu mewn ffordd gadarnhaol mewn perthynas â'u hiechyd a'u llesiant o oedran cynnar, a fydd yn lleihau cyfraddau salwch a'r straen ar wasanaethau'r GIG yn y dyfodol.

**Cw.7** Roedd y cwestiwn AA3 hwn yn gofyn i ymgeiswyr ystyried sut byddai poblogaeth sy'n heneiddio yn gallu creu heriau i'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant yng Nghymru. Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan a dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o fater amserol iawn. Gwnaethant nodi heriau allweddol, fel y pwysau ar wasanaethau, cyfarpar a staff gan arwain at restri aros hirach am driniaethau, blocio gwelyau mewn ysbytai, cyfraddau clefydedd a marwoldeb uwch a diffyg darpariaeth gydgysylltiedig rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.

**Cw.8** **(a)** Roedd y cwestiwn AA1 hwn a oedd yn cael ei farcio'n seiliedig ar bwyntiau yn gofyn i ymgeiswyr nodi tair ffordd byddai'r ymgyrch 'Curwch Ffliw' yn gallu cyfrannu at welliannau i iechyd a llesiant pob unigolyn yng Nghymru. Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr farciau ar y cwestiwn hwn drwy amlinellu'r broses o hybu brechiadau ffliw a'u hargaeledd, y ffaith bod y brechiad yn cael ei gynnig bob blwyddyn am ddim i grwpiau penodol, gwell ymwybyddiaeth o sut i drin achosion o ffliw ac ymdrechion i annog y cyhoedd i gael eu brechu er mwyn lleihau'r risg o gael y ffliw.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)** Hwn oedd y cwestiwn olaf ar y papur arholiad. Aeth ymgeiswyr ati i ateb y cwestiwn mewn gwahanol ffyrdd. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiad o lywio gofal, ac wedyn ddadansoddiad o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion hŷn. Aeth yr ymgeiswyr hyn ati i ddiffinio a disgrifio llywio gofal, gan wedyn amlinellu amrywiaeth o wasanaethau priodol i bobl hŷn, fel cynlluniau cyfeillio, addasiadau i'r tŷ, Shopmobility a systemau teleofal. Rhoddodd ymgeiswyr eraill ymateb mwy integredig, gan ddisgrifio llywio gofal o fewn cyd-destun sut mae llywio gofal yn anelu at gyfeirio'r gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion unigol y person hŷn ar yr adeg gywir ac yn y man gorau i gefnogi ei iechyd a'i lesiant cyffredinol. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr sut mae gweithwyr llywio gofal, fel uwch-ymarferwyr nyrsio a fferyllwyr yn aml yn ymgymryd â rôl fel gweithiwr llywio gofal er mwyn lleihau'r pwysau ar apwyntiadau meddygon teulu. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn meddu ar lawer o wybodaeth am y strategaeth llywio gofal nac am y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol sydd ar gael i unigolion hŷn.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:**

1. Mae angen i ymgeiswyr ddarllen pob cwestiwn arholiad yn ofalus iawn er mwyn canolbwyntio ar:
    - Ateb y cwestiwn a osodwyd. Gellid annog ymgeiswyr i uwcholeuo neu danlinellu geiriau allweddol yn y cwestiwn er mwyn osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd neu ddim ond ateb rhan o'r cwestiwn a osodwyd.
    - Ymateb i'r ferf orchmynnol gywir yn y cwestiwn arholiad.
    - Gwirio'r marciau a ddyfernir ar gyfer y cwestiwn arholiad. Mae 80 o farciau i'w hennill yn y papur arholiad hwn, sy'n cyfateb i tua 1.5 munud i bob marc. Felly, er enghraifft, dylid cwblhau cwestiwn gwerth 6 marc o fewn 9 munud.

2. Byddai ymgeiswyr yn elwa ar ymarfer cwestiynau arholiad yn rheolaidd fel bod yr arholiad terfynol o bosibl yn achosi llai o straen, ac nid yn brofiad anghyfarwydd iddynt. Mae angen i ymgeiswyr ymgyfarwyddo â chymhwyso'r gwahanol ferfau gorchmynnol fel eu bod yn gallu cael mynediad i ac ennill marciau yn y bandiau marciau uchaf. Mae'r cynlluniau marcio o gyn-bapurau arholiad yn gallu bod yn adnoddau gwerthfawr hefyd i ategu gweithgareddau addysgu a dysgu. Gall ymarfer ffug-arholiad llawn helpu ymgeiswyr i wella eu sgiliau rheoli amser ac osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd yn y dyfodol.

3. Dylai canolfannau sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gyfarwydd â holl gynnwys Uned 1 y fanyleb. Gallai arholiadau yn y dyfodol barhau i ganolbwyntio ar unrhyw ran o gynnwys y fanyleb.

4. Dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio geirfa a therminoleg sector-benodol, fel y nodwyd yn y fanyleb ac o'u hymgysylltiad â'r sector galwedigaethol.

5. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau cymorth a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd ac sydd ar gael ar wefannau Dysgu Iechyd a Gofal Cymru a CBAC i gefnogi athrawon a'u hymgeiswyr. Mae'r adnoddau yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi DPP, deunyddiau asesu enghreifftiol, hen bapurau arholiad ac adroddiadau arholwyr.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## TAG

## Haf 2024

## UNED 2 CEFNOGI IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH YNG NGHYMRU

### Trosolwg o'r Uned

Gall canolfannau ddod o hyd i'r ddeddfwriaeth benodol, y polisi ar gyfer 'Tasg 2 Adran Dd' ar safle Porth CBAC, o dan adnoddau, 'Tasgau Asesu Di-arholiad'. Bob cyfres arholiadau, bydd CBAC yn cyhoeddi manylion am ddarn penodol o ddeddfwriaeth, neu bolisi penodol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio ato yn eu gwaith. Un o ofynion y rheoleiddwyr yw bod CBAC yn sicrhau bod unrhyw waith Asesiad Di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n derfynol.

Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu. Roedd anodiadau ar waith neu gynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y dyfarnwyd marciau, yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd.

Gwelwyd asesu cywir gan y rhan fwyaf o ganolfannau, ond dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchmynnol.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Tasg 1

Roedd y tasgau yn eu trefn ac wedi'u cwblhau mewn fformat priodol ar gyfer adroddiad. Dewisodd ymgeiswyr rolau swyddi priodol o'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y rolau o fewn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant cyn penderfynu ar y ddwy rôl swydd. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

### Adran A – Cynnwys 2.2.3(c)

Ymdriniwyd â 2.2.3(c) yn dda. Amlinelliadau da o rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl dau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i gymhwyso'n briodol, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atyn nhw.

Mae angen i gynnwys 2.2.3(c) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Cysylltu cyfleoedd a llwybrau cyflogaeth â'r canlynol; cyfleoedd ar gyfer dyrchafiad neu ddilyniant, meysydd arbenigedd a/neu leoliadau daearyddol/ lleoliadau, er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar dudalen 36 y fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran B – Cynnwys 2.2.2(a), (ch) 2.2.4 (a)**

Ymdriniwyd â 2.2.2(a), (ch) 2.2.4 (a) yn dda. Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae deddfwriaeth, mentrau a rheoliadau cyfredol yn cefnogi ac yn effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy o ansawdd uchel yng Nghymru.

Mae angen i gynnwys 2.2.2(a), (ch) 2.2.4 (a) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Y drafodaeth am effaith deddfwriaeth, rheoliadau a mentrau ar wasanaethau gofal cynaliadwy a gofal o ansawdd uchel, er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae'r rhestr o ddeddfwriaethau, rheoliadau a mentrau i'w gweld ar dudalennau 38-39 y fanyleb.

Adran C (i) Cynnwys AA2 2.2.2(c) Ymdriniwyd â 2.2.2(c) yn dda. Esboniadau da o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae angen i gynnwys AA2 2.2.2(c) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Yn arbennig, mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod y sgiliau a'r technegau yn cael eu cymhwyso at arferion gwaith er mwyn hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i gyflawni band marciau uwch.

Er mwyn cyflawni'r marciau uwch, mae angen cymhwyso cynnwys AA2 2.2.2(c) yn fwy at yr ymarferwr a ddewiswyd, gan roi mwy o esboniad o'r ffordd y gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r rhestr o sgiliau a thechnegau i'w gweld ar dudalen 31 y fanyleb.

**Adran C (ii) AA2 2.2.2(b) 2.2.2(d)**

Ymdriniwyd â 2.2.2(b) 2.2.2(d) yn dda. Esboniad da o'r egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'w harferion gwaith, a sut y cânt eu cymhwyso. Esboniad da o sut mae'r ymarferwr yn gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.

Mae angen i gynnwys AA2 2.2.2(b), 2.2.2 (d) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Mae angen cymhwyso egwyddorion gofal yn fwy at yr ymarferwr a ddewiswyd i ennill marciau uwch. Mae'r rhestr o egwyddorion a gwerthoedd craidd i'w gweld ar dudalen 30 y fanyleb.

Mae angen ymdrin â chynnwys AA2 2.2.2(b) 2.2.2(d) yn fanwl ac mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn trafod y Tîm Amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth i'r un lefel ag egwyddorion a gwerthoedd craidd cyn rhoi marciau uwch. Mae angen esbonio egwyddorion gofal mewn perthynas â'r ffordd maen nhw'n helpu i sicrhau gofal person/plentyn-ganolog o ansawdd uchel. Mae angen esbonio gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth, a'r ffordd y mae'n cefnogi'r unigolyn i nodi a chyflawni canlyniadau personol.

**Tasg 2**

Cwblhawyd Tasg 2 mewn fformat priodol sef cyflwyniad, blog neu ffeithlun. Lluniodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr gyflwyniad. Roedd gwaith rhai hefyd yn cynnwys nodiadau PowerPoint. Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cyflwyniad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, gan helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran A AA2 2.2.1(c)**

Ymdriniwyd â 2.2.1(c) yn dda. Esboniadau da o sut gellid nodi ac asesu dau o anghenion penodol yr unigolyn er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin ag Anghenion (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol ac Ieithyddol) yr unigolyn. Mae angen mwy o ddyfnder a manylion wrth ymdrin â'r ffordd y gellid asesu'r anghenion hynny er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae angen ymdrin yn llawn â 2.2.1(c) cyn y gellir rhoi marciau uwch.

**Adran B Cynnwys AA1 AO2 2.2.1(a) 2.2.1(b)**

Ymdriniwyd â 2.2.1(a) 2.2.1(b) yn dda. Amlinelliadau da o sut y gellir cefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau, ac esboniad o sut y gallai hyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a meithrin gwydnwch.

Ymdriniaeth dda o amlinellu canlyniadau personol a chryfderau'r unigolyn, ac ymdriniaeth dda o'r strategaethau y gall yr unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a chanlyniadau personol. Mae angen mwy o ddyfnder a manylion ar gynnwys AA1, AA2, 2.2.1 (a) 2.2.1 (b) er mwyn cyflawni band marciau uwch. Ar gyfer AA2, bydd manylion mwy penodol sy'n amlinellu sut y gall ymarferwyr gefnogi'r unigolyn i nodi canlyniadau personol, nodi cryfderau, er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a nodi a meithrin ei wydnwch, yn helpu o ran rhoi bandiau marciau uwch.

**Adran C Cynnwys AA3 2.2.1(ch)**

Ymdriniwyd â 2.2.1(ch) yn dda. Archwiliadau da o sut y gellir cefnogi'r unigolyn i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.
Ymdriniwyd â chynnwys AA3 2.2.1(ch) yn dda ac roedd wedi'i gysylltu'n fanwl â'r unigolyn. Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn archwilio amrywiaeth eang o ffyrdd y gall yr unigolyn a ddewiswyd gael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.

**Adran Ch Cynnwys AA AO1 AO3 2.2.3(a) 2.2.3(ch)**

Ymdriniwyd â 2.2.3(a) 2.2.3(ch) yn dda. Amlinelliadau da o strwythur darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant berthnasol yng Nghymru, ac ystyriaethau o sut mae'r rhain yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU. Rhaid annog ymgeiswyr i gysylltu cynnwys AA1, AA3, 2.2.3(a), 2.2.3(ch) â'u hunigolyn. Mae angen mwy o ddyfnder a manylder ar gynnwys AA1, AA3, 2.2.3(a) 2.2.3(ch) er mwyn cyflawni band marciau uwch. Ystyried sut mae gwasanaethau perthnasol yng Nghymru yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU.

**Adran D AA2 2.2.3(b)**

Ymdriniwyd â 2.2.3(b) yn dda. Esboniadau da o gynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. Mae angen ymdrin â chynnwys AA2 2.2.3(b) yn llawn er mwyn cyflawni band marciau uwch. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda am nod pedwarplyg Cymru iachach.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran Dd AA2 AO3 2.2.4(a) 2.2.4(b)**

Ymdriniwyd â 2.2.4(a) AA3 2.2.4(b) yn dda. Esboniadau da o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o Ofal Iechyd Darbodus ac asesiadau o sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd, a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn. Mae angen mwy o ddyfnder ar gynnwys AA2 2.2.4(a) ac esboniad manwl o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o Ofal Iechyd Darbodus er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae angen i gynnwys AA3 2.2.4(b) gynnwys mwy o asesiad o'r ffordd y mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn, er mwyn rhoi band marciau uwch.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**
Mae angen i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn rhoi bandiau marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar dudalennau 79 a 80 y fanyleb.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atyn nhw. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y nodir ar dudalen 77 yn y fanyleb.

Anogir y defnydd o benawdau (Adran a, b, c ac ati) i gefnogi ymgeiswyr wrth gyflwyno gwaith.

Nodyn i atgoffa bod adnoddau i gefnogi cyflwyno i'w cael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2024**

**UNED 3 - SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH DATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC**

**Trosolwg o'r Uned**

Roedd safon cyffredinol ymatebion ymgeiswyr i'r papur yn dda ac roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda yn gyffredinol o'r fanyleb ac yn gallu cymhwyso'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn effeithiol at y cwestiynau. Prin oedd yr enghreifftiau lle gwelwyd ymgeiswyr yn ymateb heb iddynt ddeall yr hyn roedd y cwestiwn yn ei ofyn.

Dyma'r drydedd flwyddyn y cafodd y cymhwyster hwn ei ddyfarnu ac, o gymharu â'r llynedd, roedd llai o gwestiynau na roddodd yr ymgeiswyr gynnig arnynt a llai o ymatebion lle na roddwyd unrhyw farciau. Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth well o'r fanyleb ac roedden nhw'n gallu cymhwyso eu hatebion yn well at yr astudiaeth achos a safbwyntiau damcaniaethol o ddatblygiad plant ym mhob rhan o'r papur. Dylid canmol canolfannau am y gwelliannau a wnaed ganddynt yn y trefniadau addysgu a dysgu ym mhob agwedd ar y fanyleb eleni. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar ateb pob un o'r cwestiynau ac enillwyd yr ystod lawn o farciau ar gyfer pob cwestiwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr amser a ganiatawyd ar gyfer y papur wedi arwain at ymgeisydd yn tangyflawni ac roedd yr ymatebion yn dangos bod y cyfle gan ymgeiswyr i ddangos yn llawn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r fanyleb ar gyfer yr uned hon drwy'r papur. Roedd llawer o ymatebion ardderchog yn dangos bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad. Roeddent wedi rhoi atebion llawn gwybodaeth wedi'u strwythuro'n dda, yn defnyddio terminoleg briodol iechyd a gofal cymdeithasol/gofal plant o'r fanyleb.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr a wnaeth yn dda yn y papur hwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at y cwestiynau a osodwyd mewn cyd-destun gofal plant o fewn yr astudiaeth achos ar gyfer adran A.
- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o sut i gymhwyso damcaniaethau datblygiad plant at Aisha yn yr astudiaeth achos ac yng nghyd-destun lleoliad gofal plant.
- Dangos gwybodaeth dda am y fanyleb gan gynnwys sut gall ymarferwyr hybu datblygiad cyfannol plant, cyfnodau chwarae a'r strategaethau sy'n hybu ymddygiad cadarnhaol.

© WJEC CBAC Ltd.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr nad oeddent wedi perfformio cystal yn y papur hwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Dangos diffyg manylder yn eu hymatebion, gan roi ymatebion cyffredinol am ddatblygiad plant mewn perthynas â PILES heb ateb y cwestiwn. Rhoi ymatebion a oedd yn ymwneud â'r maes datblygiad anghywir.
- Gallu datgan elfennau o'r damcaniaethau datblygiad ond gan fethu â'u cymhwyso at gyd-destun gofal plant neu'r blynyddoedd cynnar.
- Ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng gwahanol ddamcaniaethau datblygiad neu briodoli damcaniaethau i'r damcaniaethwr anghywir.
- Llunio ymatebion heb ddyfnder a oedd yn ddisgrifiadol ar y cyfan pan ofynnwyd iddynt esbonio neu asesu.
- Drysu rhwng cyfnodau chwarae a mathau o chwarae neu ei chael hi'n anodd esbonio sut mae chwarae yn hybu gwahanol agweddau ar ddatblygiad plant.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1 (a)** Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn, gan lwyddo i amlinellu'r newidiadau corfforol sy'n digwydd i ferched yn ystod y glasoed. Ymatebion cryno iawn a gafwyd gan yr ymgeiswyr llai llwyddiannus neu amlinelliad o newidiadau emosiynol neu gymdeithasol yn hytrach na newidiadau corfforol.

**(b)** Gallai'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddisgrifio rhai o nodweddion disgwyliedig datblygiad emosiynol a chymdeithasol i blentyn 12 oed, ond dim ond un neu ddwy nodwedd gymdeithasol ac un neu ddwy nodwedd emosiynol y gallai'r ymgeiswyr llai llwyddiannus eu disgrifio, neu dim ond un maes datblygiad. Soniodd rhai ymgeiswyr am agweddau eraill ar ddatblygiad fel datblygiad corfforol neu ddeallusol. Rhoddodd rhai ymgeiswyr nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol nad oeddent yn berthnasol i blentyn 12 oed.

**(c)** Dangosodd llawer o'r ymgeiswyr wybodaeth dda am fanteision cwnsela o ran datblygu ymddygiad cadarnhaol. Disgrifiodd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus ystyr cwnsela heb gymhwyso hynny at Aisha a sut y byddai'n gallu ei helpu hi i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol neu ni ddangoswyd fawr ddim dealltwriaeth o fanteision cwnsela yn gyffredinol.

**Cw.2 (a)** Llwyddodd rhai ymgeiswyr i asesu sut roedd damcaniaeth Erikson o ddatblygiad seicogymdeithasol yn esbonio rhywfaint o ymddygiad Aisha, gan nodi'r cyfnodau cywir a oedd yn berthnasol i Aisha a chan ddangos asesiad da ohonynt o ran ei hymddygiad. Nid oedd ymgeiswyr eraill yn deall y ddamcaniaeth, nid oeddent yn gallu nodi'r cyfnodau a oedd yn berthnasol i Aisha neu gwnaethant ddisgrifio damcaniaeth Erikson heb ei chymhwyso at Aisha na'i hymddygiad.

**(b)** Cafwyd atebion da iawn gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn gan ddangos dealltwriaeth dda o'r ffactorau cymdeithasegol sy'n effeithio ar Aisha a'u disgrifio'n fanwl er mwyn bodloni elfen AA1 y cwestiwn hwn yn effeithiol. Llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i ddadansoddi effaith bosibl y ffactorau hyn ar ddatblygiad cyfannol Aisha, gyda sawl un yn dewis gwneud hynny drwy PILES ac yn rhoi barnau rhesymegol ar yr effaith gadarnhaol a negyddol, a oedd yn galonogol. Llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i ennill marciau uchel ar gyfer y cwestiwn hwn ar draws dwy agwedd y cwestiwn, sef AA1 ac AA3. Nododd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus y ffactorau ond dim ond disgrifiadau cryno a roddwyd ac ni wnaethant ystyried yr effaith ar ddatblygiad Aisha yn effeithiol.

**Cw.3 (a)** Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, ar y cyfan, yn galonogol iawn ac roedd gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o fanteision chwarae gweithredol i blant. Rhoddodd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus ymatebion cryno neu gwnaethant drafod manteision chwarae yn gyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio ar chwarae gweithredol.

**(b)** Rhoddodd rhai ymgeiswyr asesiad da o sut gall chwarae anstrwythuredig hybu datblygiad deallusol gan ddangos dealltwriaeth dda o'r math hwn o chwarae. Drysodd ymgeiswyr eraill rhwng chwarae anstrwythuredig a chwarae strwythuredig a rhoddwyd disgrifiad yn hytrach nag asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

**(c)** Dangosodd yr ymatebion fod gan ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o ba mor bwysig yw ymlyniad a chafwyd ymatebion da gan lawer o'r ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn gan gyflawni marciau uchel. Rhoddodd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus ymatebion annelwig neu ddryslyd heb esbonio pwysigrwydd ymlyniad, ond gan ddisgrifio ystyr ymlyniad yn gyffredinol yn lle hynny.

**Cw.4 (a)** Roedd safon ymatebion y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dda. Dangosodd llawer o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth glir o ddamcaniaeth Piaget, gan lwyddo i esbonio sut mae'r ddamcaniaeth yn helpu ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn dysgu drwy chwarae. Disgrifiodd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus y ddamcaniaeth, ond ni wnaethant ei chymhwyso at ddysgu drwy chwarae nac ymarferwyr.

**(b)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r cyfnodau chwarae o adeg geni hyd at 5 oed yn effeithiol ac yn y drefn gywir. Cafwyd llawer o ymatebion boddhaol iawn i'r cwestiwn hwn gyda llawer o'r ymgeiswyr yn cyflawni'r marciau uchaf. Roedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn drysu rhwng cyfnodau chwarae a mathau o chwarae.

**(c)** Rhoddodd ymgeiswyr rai ymatebion da mewn perthynas â sut mae ymarferwyr yn bodloni anghenion cyfannol plant ifanc o ran damcaniaeth Maslow, gan lwyddo i gymhwyso'r hierarchaeth anghenion at waith ymarferwyr yn y lleoliad. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ei chael hi'n anodd cymhwyso'r ddamcaniaeth at leoliad gofal plant ac felly, ni wnaethant lwyddo i gyflawni'r marciau uwch ar gyfer y cwestiwn hwn.

**Cw.5** Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth dda am y strategaethau sy'n cael eu defnyddio yn y dull addasu ymddygiad gan lwyddo i'w cymhwyso at Jac. Roedd tystiolaeth bod gan lawer o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r dull addasu ymddygiad a sut y gallai ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gallu gwerthuso effaith y strategaethau hyn o ran ymddygiad Jac ac yn rhoi barn ar eu heffeithiolrwydd. Roedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn disgrifio rhai o'r strategaethau ond nid oeddent yn eu cymhwyso at Jac nac yn gwerthuso eu heffaith o ran datblygu ymddygiad cadarnhaol. Yn gyffredinol, roedd yn galonogol nodi bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn ac yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r maes hwn o'r fanyleb yn llwyddiannus.

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol.

1. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar bob cwestiwn a phrin oedd yr ymgeiswyr a gafodd farc o sero. Llwyddodd yr ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth dda o gynnwys y fanyleb ac i gymhwyso eu gwybodaeth yn well na'r hyn a welwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol.

2. Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r astudiaeth achos gan lwyddo i gymhwyso cynnwys y fanyleb at yr astudiaeth achos yn effeithiol. Cafwyd atebion da i Adran A o'r papur gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gyda rhai ymatebion ardderchog yn cyflawni marciau ardderchog.

3. Cafwyd tystiolaeth dda o addysgu a dysgu o ansawdd yn cael eu cymhwyso at gynnwys yr uned hon gan ganolfannau, a hynny'n amlwg yn y gwelliant o ran ymatebion ymgeiswyr gan ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth a gwell gallu i'w cymhwyso nag a welwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## TAG

## Haf 2024

## UNED 4 –CEFNOGI DATBLYGIAD, IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH PLANT A PHOBL IFANC

### Trosolwg o'r Uned

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi ateb pob tasg. Er na chafodd gwaith rhai o'r ymgeiswyr ei gyflwyno ar ffurf cyflwyniad ac adroddiad, roedd y rhan fwyaf ohono'n gysylltiedig â'r sector gofal plant yng Nghymru. Defnyddiodd ymgeiswyr amrywiaeth o leoliadau yn Nhasg 1, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn briodol ac wedi'u dewis yn dda. Cymhwysodd rhai ymgeiswyr Dasg 1 at leoliad gofal plant cyffredinol fel ysgolion cynradd neu feithrinfeydd. Aeth yr ymgeiswyr a oedd fwyaf llwyddiannus yn Nhasg 1 ati i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at leoliad gofal plant penodol gan eu galluogi i ystyried yn well sut mae anghenion yn cael eu diwallu gan ddefnyddio enghreifftiau penodol i lywio eu gwaith.

Esboniodd rhai ymgeiswyr anghenion datblygiadol plant yn fanwl yn ystod pob cyfnod datblygu allweddol, ond nid oedd angen gwneud hynny, gan mai prif ffocws Tasg 1 oedd anghenion plant a phobl ifanc yn y cyfnod datblygu allweddol sy'n gysylltiedig â'r lleoliad a ddewiswyd ganddynt. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ymgysylltu'n dda â'r ffordd y caiff anghenion plant a phobl ifanc eu diwallu gan leoliadau yng Nghymru ym mhob rhan o Dasg 1. Roedd y ffordd y cafodd y dasg hon ei chyflwyno yn ardderchog ar y cyfan.

Yn Nhasg 2, roedd gwaith ymgeiswyr wedi'i gyflwyno'n dda ar y cyfan ac roedd gwaith cyfeirnodi cywir. Mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth benodedig yn nhasg 2, trafododd rhai ymgeiswyr yr holl ddeddfwriaeth a'r holl fentrau sy'n rhan o gynnwys y fanyleb. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod y prif ffocws ar y ddeddfwriaeth ddynodedig, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 eleni.

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r polisïau cymdeithasol sy'n effeithio ar y sector gofal plant yng Nghymru a dylid llongyfarch canolfannau am y gwelliannau a wnaed o ran cyflwyniad y gwaith ac o ran ymdrechion i gymhwyso at y sector eleni.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol** Tasgau

**(1)** **(a)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhoi diffiniad defnyddiol o ofal plentyn-ganolog a phwysigrwydd gofal plentyn-ganolog o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhannu eu hatebion yn anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol, a chymdeithasol ac yn nodi'n glir sut y gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog wrth ddiwallu'r anghenion penodol hyn. Er mwyn i ymgeiswyr gyrraedd Band 3, rhaid iddynt ddangos dealltwriaeth hyderus o sut gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog wrth ddiwallu'r anghenion cyfannol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cymhwyso'r wybodaeth am sut roedd anghenion penodol yn cael eu diwallu at y lleoliad a ddewiswyd ganddynt a chafwyd rhai ymatebion manwl a thrylwyr. Roedd rhai ymgeiswyr a oedd wedi dewis cymhwyso eu gwybodaeth at leoliadau cyffredinol fel meithrinfeydd neu ysgolion cynradd heb ganolbwyntio ar leoliad penodol yn ei chael hi'n fwy anodd cymhwyso eu gwybodaeth mewn ffordd ddigon dwfn a manwl i gyflawni'r band marciau uwch.

Roedd ymgeiswyr a esboniodd sut roedd anghenion plant yn cael eu diwallu ar draws yr holl gyfnodau datblygu allweddol yn hytrach nag yn y lleoliad penodedig, er enghraifft, ysgol gynradd yn ei chael hi'n anos dangos dealltwriaeth hyderus gan eu bod wedi rhoi ymatebion llai manwl dros ystod oedran ehangach ac nid oedd angen gwneud hyn yng nghyd-destun y dasg hon. Dylai ymgeiswyr esbonio anghenion yr ystod oedran yn y lleoliad penodedig yn fanwl, gan ddangos dealltwriaeth hyderus. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr rywfaint o esboniad o'r effeithiau posibl lle nad oedd yr anghenion hyn yn cael eu diwallu gan eu galluogi i gyflawni band marciau 2 neu 3, ond dim ond ar gyfer anghenion corfforol plant yr ymdriniodd rhai ymgeiswyr â hyn, gan gyfyngu ar y marciau y gallent eu cyflawni. Dylai ymgeiswyr esbonio'r effeithiau posibl os na chaiff anghenion y plant eu diwallu ar gyfer pob maes datblygiad.

**(b)** **(i)** Llwyddodd rhai ymgeiswyr i ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn drwy ymdrin â nodweddion allweddol y cwestiwn – roedd gofyn iddynt ddisgrifio'r mathau gwahanol o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd y gall plentyn neu berson ifanc eu profi, a rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr amrywiaeth a disgrifiadau digonol i gyrraedd band marciau 1 neu 3.

**(ii)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol mathau gwahanol o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd ar blant a thrafod y cymorth cadarnhaol a roddwyd gan leoliadau i blant er mwyn hyrwyddo eu gwydnwch. Dim ond ystyried effaith mathau gwahanol o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd a wnaeth yr ymgeiswyr llai llwyddiannus heb ystyried sut roedd plant yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnodau hyn yn y lleoliad. Cafwyd rhai ymatebion da yma gydag ymgeiswyr yn rhoi esboniad llawn o sut roedd y lleoliad gofal plant yn cefnogi trawsnewidiadau plant gan roi enghreifftiau perthnasol a manwl o'r lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**(c)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu esbonio'r mathau o asesu a ddefnyddiwyd a'u pwrpas yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt; ond fe wnaeth rhai ymgeiswyr restru asesiadau heb esbonio pam byddai'r asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion penodol plant a phobl ifanc yn y lleoliad. Rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at y lleoliad o fewn y gwaith. Nid ymdriniodd rhai ymgeiswyr â'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol, gan gyfyngu ar y marciau y gallent eu hennill yn yr adran hon. Hefyd, dylid egluro'r egwyddorion asesu'n glir. Gwnaeth rhai ymgeiswyr yn yr adran hon gynnwys asesiadau nad oeddent yn berthnasol i ystod oedran y lleoliad a ddewiswyd ganddynt, er enghraifft gan gynnwys asesiadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen pan oeddent wedi dewis lleoliad i blant rhwng 11 ac 16 oed. Dylai'r asesiadau sy'n cael eu hesbonio yn yr adran hon fod yn gysylltiedig ag ystod oedran y lleoliad a ddewiswyd. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gymhwyso'r mathau o asesiadau a'u pwrpas yn dda at y lleoliad a ddewiswyd ganddynt, gan gyrraedd band marciau 3 a 4. Nid oedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r awdurdod lleol neu'r pum elfen asesu neu ni roddwyd esboniad llawn ohonynt.

**(ch)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhestru'r rhwystrau y gallai plant a phobl ifanc eu profi o ran cael mynediad at ofal a chymorth. Fodd bynnag, nid oedd bob amser wedi'i gysylltu â gofal a chymorth neu â'r lleoliad a ddewiswyd ganddynt, er y llwyddodd rhai ymgeiswyr i wneud hyn yn arbennig o dda, gan ennill marciau uchel am yr adran hon. Defnyddiodd yr ymgeiswyr a oedd wedi datblygu eu hatebion enghreifftiau penodol o'u lleoliadau gan ystyried amrywiaeth o rwystrau.

**Tasg 1**

**(d)** **(i)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu esbonio pam mae gan rai plant anghenion gofal cymhleth ond nid oeddent bob amser yn gallu rhoi amrywiaeth ddigonol o enghreifftiau i ennill y marciau uchaf.

**(d)** **(ii)** Cafwyd perfformiad da gan rai ymgeiswyr yn y cwestiwn hwn gan gynnig enghreifftiau penodol o sut mae'r lleoliad a ddewiswyd yn deall anghenion gofal cymhleth amrywiol plant, ac roeddent yn gallu rhoi esboniad manwl o amrywiaeth o ffyrdd o ymateb i anghenion gofal cymhleth a oedd yn benodol i'r lleoliad a ddewiswyd. Llwyddodd yr ymgeiswyr hyn i gyflawni'r band marciau uchaf drwy esbonio sut mae deall ac ymateb i'r anghenion cymhleth hyn o fudd i blant neu bobl ifanc wrth iddynt gyflawni eu canlyniadau personol, a hynny gan gyfeirio at y lleoliad.

**Tasg 2**

**(a)** Aeth mwyafrif yr ymgeiswyr ati i archwilio'r polisïau cymdeithasol gwahanol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd rhai ymgeiswyr at y ffordd roeddent yn effeithio ar y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Byddai marciau uwch wedi cael eu rhoi am fwy o gysylltiadau uniongyrchol â'r effaith ar y sector gofal plant. Roedd yr ymgeiswyr a gyflawnodd y marciau uchaf yn gallu archwilio effaith polisi cymdeithasol yng Nghymru ar y sector gofal plant yn llawn gan archwilio sut y cafodd Cymru Iachach ei ddylunio i ysgogi newid yn y sector mewn ffordd wrthrychol.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)** Esboniodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru ond ni wnaeth pob ymgeisydd esbonio'r effaith ar ymarferwyr. Roedd yr ymgeiswyr hynny a roddodd esboniad o'r effaith ar ymarferwyr yn gallu archwilio'r newid yn y ddarpariaeth yn llawn drwy'r effaith ar rôl yr ymarferydd gan eu galluogi i gyflawni'r bandiau marciau uchaf.

**(c) (i)** Llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i ymateb yn dda yn yr adran hon ac roedd yn galonogol gweld y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth drylwyr am y cysyniad o ddiogelu a'i bwysigrwydd wrth amddiffyn plant a phobl ifanc. Cafwyd atebion da gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn yr adran hon gan gysylltu eu hatebion yn briodol â deddfwriaeth a gweithdrefnau diogelu yng Nghymru.

**(c) (ii)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu disgrifio cyfrifoldebau sefydliadau a chyfrifoldebau unigolion mewn perthynas â diogelu a chafwyd ymatebion sylweddol well yn yr adran hon o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ar y cyfan, ni lwyddodd ymgeiswyr i asesu cystal sut roedd y cyfrifoldebau hyn yn dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau nac i gyfeirio at bolisïau neu weithdrefnau ar gyfer diogelu plant mewn lleoliadau, ond llwyddodd y mwyafrif i strwythuro eu hatebion yn ddigonol gan ddefnyddio atalnodi a gramadeg briodol. Dylai ymgeiswyr rannu eu hateb yn ddwy adran: (1) cyfrifoldebau unigolion; a (2) cyfrifoldebau sefydliadau er mwyn sicrhau y gallant asesu'r effaith ar ymarfer ar gyfer dwy elfen yr adran hon yn llawn.

**(c) (iii)** Trafododd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr nodau a rolau'r ddeddfwriaeth benodedig, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ond ni wnaeth rhai ohonynt drafod sut mae'n gwella lles plant a phobl ifanc. Trafododd rhai ymgeiswyr wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ac nid oeddent fel petaent yn ymwybodol fod y ddeddfwriaeth benodedig yn newid a'i bod yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn. Trafododd rhai yr holl ddeddfwriaethau yn yr adran hon o'r fanyleb yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar y ddeddfwriaeth benodedig, sef y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac felly ni ellid rhoi marciau iddynt am rannau helaeth o'u hymateb yn yr adran hon. Dim ond trafodaeth sylfaenol neu gyfyngedig a gafwyd o ran sut mae'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn diogelu plant yng Nghymru ac yn gwella'r gofal a gânt. Yn yr adran hon, ni wnaeth ymgeiswyr bob amser drafod y nodau a rôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel yr oedd ei angen i gyflawni'r bandiau marciau uwch.

**(ch)** Roedd y rhan fwyaf yn gallu ystyried natur newidiol cymdeithas; roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi ymchwil wrthrychol o ran natur newidiol cymdeithas ond nid oeddent yn llunio barn am sut byddai hynny'n effeithio ar y sector gofal plant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio ymchwil i lunio barn ar sail gwybodaeth. Yn gyffredinol, cafwyd ymatebion da i'r adran hon, ac roedd rhai ymgeiswyr wedi cynnal gwaith ymchwil helaeth gan ddefnyddio dadansoddiadau ystadegol a deunydd darllen ehangach i gefnogi eu pwyntiau, gan eu galluogi i gyflawni marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Ar gyfer **Tasg 1 (a),** dylai ymgeiswyr sicrhau yr ymdrinnir yn llawn ag effeithiau posibl anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc er mwyn cyrraedd Band 3. Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio'n bennaf ar sut mae anghenion plant yn cael eu diwallu o fewn cyfnod datblygu allweddol y lleoliad a ddewiswyd ganddynt. Mae o fudd i ymgeiswyr ddefnyddio lleoliad penodol yn hytrach na lleoliad cyffredinol wrth gymhwyso eu gwaith.

- Ar gyfer **Tasg 1 (b) (ii),** dylai ymgeiswyr archwilio sut mae trosglwyddiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd yn effeithio ar ddatblygiad a gwydnwch a gofal a chymorth yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

- Ar gyfer **Tasg 1 (c) (i),** er mwyn gallu cyrraedd Band 4, dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn esbonio'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol a'u bod yn ystyried yr egwyddorion asesu. Dylai ymgeiswyr gymhwyso'r asesiadau at ystod oedran penodedig y lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

- Dylai ymgeiswyr **Tasg 2 (b)** sicrhau eu bod yn esbonio effaith y newidiadau ar rôl ymarferwyr.

- Ar gyfer **Tasg 2 (c) (ii),** mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin â rhan AA3 o'r adran hon a sut mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwyddau yn effeithio ar ymarfer yn y sector gofal plant.

- Ar gyfer **Tasg 2 (c) (iii),** dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o nodau a rôl y darn penodedig o ddeddfwriaeth/menter sy'n newid ac yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn gan CBAC ac mai dim ond y darn hwnnw a gaiff ei drafod ganddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2024**

**UNED 5 – SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH YMDDYGIAD OEDOLION**

## Trosolwg o'r Uned

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, gyda'r rhan fwyaf yn ennill marciau am eu hymatebion oherwydd eu bod yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddamcaniaeth seicolegol. Roedd yr ymgeiswyr wedi gwneud defnydd effeithiol o'r astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw i baratoi ar gyfer eu hymatebion yn Adran A o'r papur. Nid oedd yn ymddangos bod y gallu i reoli amser wedi effeithio ar berfformiad ymgeiswyr, gan awgrymu bod yr ymgeiswyr wedi defnyddio'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' i baratoi.

Yn gyffredinol, roedd ymatebion ymgeiswyr yn dangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig priodol ar gyfer TAG. Defnyddiwyd terminoleg pwnc-benodol yn dda gan y rhan fwyaf ar draws y papur. Prin iawn y gwelwyd llawysgrifen annarllenadwy.

Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar ferfau gorchmynnol y cwestiynau o ddechrau eu hymatebion. Os na fyddant wedi ymdrin â'r ferf orchmynnol yn ddigon trylwyr, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn ymdrin â gofynion y cwestiynau; nid oedd rhai yn ymdrin â nhw mewn ffordd ddigonol i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod ymgeiswyr wedi ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng damcaniaeth seicolegol a'r dulliau gweithredu yn seiliedig ar y ddamcaniaethau honno yn arbennig wrth gyfeirio at
Cw4 (c). Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn paratoi nid yn unig drwy feddu ar ddealltwriaeth hyderus o'r damcaniaethau seicolegol ond hefyd sut y caiff y damcaniaethau hyn eu defnyddio fel rhan o wahanol ddulliau. Gellir hwyluso hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a ddarperir i gefnogi uned 5.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Adran A – Mae'r adran hon yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw

**Cw.1** Yn gyffredinol, cafwyd perfformiad da mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Amrywioldeb yn ansawdd yr ymatebion yn hytrach na diffyg gwybodaeth oedd y rheswm dros golli marciau.

**(a)** Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o effaith ffactorau seicolegol ac yn gallu cyflawni marciau llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)** Dangosodd ymgeiswyr ymatebion cymysg gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut byddai therapi siarad yn gallu helpu Nico i ymdopi â marwolaeth ei wraig.

**(c)** Roedd ymatebion y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth gadarn am egwyddorion gofal person-ganolog a therapi siarad. Ond nid oedd rhai ymatebion yn trafod sut mae therapi siarad yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog.

**Cw.2 (a)** Roedd ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r wybodaeth yn yr astudiaeth achos i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ffactorau fyddai wedi gallu cael effaith ar wydnwch Sofia ac yn gallu cyflawni marciau llawn.

**(b)** Dangosodd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu esboniad da a oedd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura a sut y gall esbonio caethiwed Sofia i siopa.

**(c)** Darparodd y rhan fwyaf o'r ymatebion dystiolaeth o drafodaeth dda a gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut byddai therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) yn gallu cefnogi unigolyn sydd ag ymddygiad caethiwus. Ond nid oedd rhai ymatebion yn cynnwys digon o fanylion am elfen wybyddol y ddamcaniaeth. Yn enghreifftiau, roedd yr ymgeiswyr a gyflawnodd y bandiau marciau uchaf wedi defnyddio enghreifftiau o ymddygiadau caethiwus i egluro eu hymatebion gan ddangos dealltwriaeth ddwfn.

**Adran B**

**Cw.3 (a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu disgrifiad da a gwybodaeth a dealltwriaeth glir o sut byddai anabledd dysgu yn gallu effeithio ar ymddygiad Yousef.

**(b)** Dangosodd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu esboniad da o sut bydd datblygu gwydnwch o fudd posibl i Yousef yn y dyfodol gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r cysyniad o wydnwch.

**(c)** Cafwyd ymateb cymysg gan ymgeiswyr. Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad. Roedd yr ymgeiswyr hynny a gyflawnodd y bandiau marciau uwch yn gallu dangos sut mae'r System Goleuadau Traffig yn enghraifft o ddull cadarnhaol a rhagweithiol, gan gysylltu hynny â phob chyfnod a rhoi enghraifft i gymhwyso eu hatebion.

**Cw.4 (a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad da o'r meysydd datblygiad allweddol allai fod yn effeithio ar Mair gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y cyflwyniad.

**(b)** Dangosodd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu esboniadau da o sut byddai ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn gallu helpu Mair, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r cysyniad o ymwybyddiaeth ofalgar.

© WJEC CBAC Ltd.

**(c)** Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymatebion sgiliau gwerthusol sylfaenol a barnau dilys ar y cyfan am gryfderau a / neu gyfyngiadau sut byddai'r dull Dyneiddiol yn gallu cefnogi Mair yn ystod therapi cwnsela. Ond yn aml, dim ond disgrifio damcaniaethau sylfaenol Maslow a Rogers a wnaeth rhai ymatebion, heb gysylltu hynny â'r dull.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn cyfuno dau amcan asesu (AA1 ac AA3) ac yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio a dadansoddi. Roedd sillafu, atalnodi, gramadeg a'r defnydd o derminoleg pwnc-benodol yn cael eu hasesu yn yr ymatebion hefyd.

© WJEC CBAC Ltd.

**AA1**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o nodweddion allweddol perthnasol y cynllun Pili Pala ac yn gallu darparu disgrifiadau da. Roedd yn braf gweld rhai disgrifiadau ardderchog, gyda rhai ymgeiswyr yn cyflawni Band Marciau 4.

**AA3**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi'u mynegi'n ddigonol ac yn dangos rhywfaint o ddehongliad o fanteision y cynllun Pili Pala i bobl sy'n byw â dementia. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi'u mynegi'n ddigonol, ac roedd ymgeiswyr yn defnyddio atalnodi a gramadeg rhesymol gywir. Roedd yr ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda yn bennaf. Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr derminoleg pwnc-benodol yn briodol.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar eiriau gorchmynnol y cwestiynau o ddechrau eu hymatebion. Os na fyddant wedi ymdrin â'r gair gorchmynnol yn ddigon trylwyr, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi.

- Yn ogystal â dealltwriaeth hyderus o'r damcaniaethau seicolegol, bydd angen i ymgeiswyr feddu ar ddealltwriaeth hyderus o sut y caiff y damcaniaethau hyn eu defnyddio i ddarparu sail ar gyfer gwahanol ddulliau.

- Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o egwyddorion gofal person-ganolog ond mae angen iddynt allu cysylltu'r egwyddorion hyn yn uniongyrchol â'r gwahanol strategaethau a dulliau sy'n cael eu
defnyddio i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.

- Argymhellir y dylid defnyddio'r holl ddeunyddiau adnoddau a ddarperir i gefnogi uned 5 i baratoi ymgeiswyr ar gyfer gofynion yr arholiad hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2024**

**UNED 6 CEFNOGI OEDOLION I GYNNAL IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH**

**Trosolwg o'r Uned**

Cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith ei uwchlwytho erbyn y dyddiad cau, sef 15 Mai. Mae'n hanfodol cyflwyno gwaith yn brydlon er mwyn gallu cwblhau'r broses gymedroli'n brydlon. Cafwyd rhai gwallau clerigol wrth adio marciau. Dylai canolfannau gadarnhau bod y marciau a roddwyd yn dod i gyfanswm priodol ar y taflenni marcio.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

Mae'n hanfodol dewis lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol priodol ar gyfer y dasg hon er mwyn i ymgeiswyr allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ym mhob rhan o'r dasg. Gall dewis gwael atal ymgeiswyr rhag gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch oherwydd diffyg enghreifftiau perthnasol y gellir eu cymhwyso at bob adran o'r dasg.

Ysgrifennodd llawer o'r ymgeiswyr adran gychwynnol ar eu lleoliad cyn dechrau Tasg 1. Mae hyn yn cyflwyno'r cefndir ar gyfer y dasg hon yn effeithiol ac yn annog ymgeiswyr i ddangos perthnasedd y lleoliad a ddewiswyd ganddynt. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi deall gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'i ran yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dda.

Ysgrifennodd rhai ymgeiswyr yn gyffredinol am drosglwyddiadau, newidiadau mewn bywyd a phrofiadau bywyd ac ni wnaethant wahaniaethu'n glir rhyngddynt, er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi gallu nodi ystod berthnasol. Ar gyfer **b (ii)**, roedd gallu ymgeiswyr i gymhwyso'r trosglwyddiadau, y newidiadau mewn bywyd a'r profiadau bywyd at yr unigolyn yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt yn amrywio, gan ddibynnu ar briodolrwydd y lleoliad. Dylai canolfannau ystyried hyn wrth roi cyngor i ymgeiswyr am y lleoliadau iechyd a/neu ofal cymdeithasol i ganolbwyntio arnynt ar gyfer y dasg hon.

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o asesu ac roedd yn galonogol gweld cyfeiriadau at y pum elfen asesu yng ngwaith mwy o'r ymgeiswyr eleni. Byddai cymhwyso hynny at y lleoliad, gan gynnwys ystyried cynlluniau gofal ac ymyriadau amserol, yn galluogi rhai ymgeiswyr i gyrraedd marciau yn y band uwch.

Nododd ymgeiswyr rwystrau yn dda ac ysgrifennodd sawl un mewn modd cynhwysfawr am ystod mewn perthynas â'r unigolyn yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt, gan gynnwys ffyrdd realistig o oresgyn heriau.

Cafodd adran **d (i) a (ii)** ei rhannu'n ddwy ran gan lawer o'r ymgeiswyr, sy'n arfer da. Mae angen mwy o ffocws ar yr adran hon o'r dasg, gan gynnwys mwy o ddyfnder wrth ystyried sut y gallai'r lleoliad ymateb i anghenion gofal cymhleth er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i oedolion i gyflawni canlyniadau personol. Dylid annog ymgeiswyr i gyfeirio at adran **(a)** i'w hatgoffa o nodweddion gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer yr unigolyn yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**

Ysgrifennodd ymgeiswyr ddisgrifiadau trylwyr o'r materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru ac er ei bod yn galonogol nodi bod mwy o ymgeiswyr wedi ystyried *Cymru Iachach* eleni, mae angen gwell ymwybyddiaeth o hyd er mwyn i rai ymgeiswyr gyrraedd y marciau yn y band uwch. Roedd rhywfaint o'r gwaith yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol ac nid oedd unrhyw gynnwys dadansoddol.

Ar gyfer adran **(b)**, dylai ymgeiswyr osgoi dyblygu gwaith sydd ei angen ar gyfer adran (ch). Dylai'r adran hon gynnig esboniad clir o'r newidiadau mewn darpariaeth a'r effaith ar rolau ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai'n ddefnyddiol ystyried esboniad o rolau newydd a datblygol yn y sector.

Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd diogelu ar gyfer adran **(c) (i)** ac roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau hynny â chyfrifoldebau o ran diogelu oedolion sy'n wynebu risg. Mae angen mwy o ddyfnder ar gyfer Amcan Asesu AA3 er mwyn dadansoddi sut mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwyddau dros ddiogelu yn cael effaith ar yr ymarferwyr hynny sy'n darparu gofal i oedolion sy'n wynebu risg. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys unrhyw ddeunydd gwerthusol yn yr adran hon o'r dasg a rhoddwyd marciau uchel iddynt.

Roedd yn galonogol nodi bod pob ymgeisydd wedi trafod y darn cywir o ddeddfwriaeth a ddynodwyd yn y cynnwys a ryddhawyd ymlaen llaw eleni, ond dylid annog ymgeiswyr i ganolbwyntio ar y meysydd o'r ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â diogelu ac i ystyried yr adrannau perthnasol er mwyn darparu trafodaeth glir o sut mae'r ddeddfwriaeth yn diogelu oedolion sy'n wynebu risg ac yn gwella eu gofal. Roedd rhywfaint o'r gwaith yn yr adran hon yn ddisgrifiadol ar y cyfan ac nid oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu. Byddai tystiolaeth o farnau rhesymegol yn gwella gwaith ymgeiswyr ar y bandiau marciau uwch.

Mae adran **(ch)** yn gofyn i ymgeiswyr asesu newidiadau mewn cymdeithas a sut maent yn effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nododd llawer o'r ymgeiswyr ffactorau perthnasol fel tlodi bwyd a phoblogaeth sy'n heneiddio ond ni wnaethant asesu'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd rhai ymatebion yn ddisgrifiadol ar y cyfan, er bod rhai ymgeiswyr ar ben uchaf y bandiau marciau wedi ymchwilio i ffeithiau ac ystadegau gan wneud ymdrech dda i gysylltu'r wybodaeth â'r effaith ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02922 404 264
E-bost: HSCandCC@wjec.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.